
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English.

# Apwyntiadau Drwy Fideo

**Ophthalmology - Emergency**

Pan fo'n briodol, gallwch gael ymgynghoriad arlein drwy alwad fideo.
Mae galwadau fideo mor gyfleus â galwad ffôn, gyda'r fantais ychwanegol o allu cyfathrebu wyneb yn wyneb.
Gall arbed amser ac arian i chi, ac mae'n dod â'ch gofal yn agosach at eich cartref.



## Ble ydw i'n mynd i fynychu fy apwyntiad?

Ewch i: https://nhswales.vc/abb-ophtheme

Yn hytrach na theithio i'ch apwyntiad, byddwch yn mynd i mewn i ardal aros arlein y clinig. Hysbysir y gwasanaeth iechyd pan fyddwch yn cyrraedd, a bydd eich clinigydd yn ymuno â chi pan fydd yn barod.

Nid oes angen creu cyfrif.

Ni chaiff unrhyw wybodaeth a nodwch ei storio.

### Beth sydd ei angen arnaf i wneud galwad fideo?

- **Cysylltiad da â'r rhyngrwyd**
  Os gallwch wylio fideo ar-lein (e.e. YouTube) gallwch wneud galwad fideo
- Ardal breifat, wedi'i goleuo'n dda, lle na fydd tarfu arnoch yn ystod yr ymgynghoriad
- Un o'r rhain:
  - Porwr gwe Google Chrome ar gyfrifiadur desg neu liniadur, neu ar dabled Android neu Smartphone
  - Porwr gwe Safari ar Apple iMac, MacBook, iPad, neu iPhone
- Gwe-gamera, seinyddion a meicroffon eisoes wedi'u hadeiladu i mewn i liniaduron neu ddyfeisiau symudol

### A yw'n ddiogel?

Mae galwadau fideo yn ddiogel; diogelir eich preifatrwydd.
Mae gennych eich ystafell fideo breifat eich hun y gall clinigwyr awdurdodedig yn unig fynd iddi.

### Faint o ddata rhyngrwyd y byddaf yn ei ddefnyddio?

Dydych chi ddim yn defnyddio unrhyw ddata wrth aros i glinigydd ymuno â chi.

Mae fideo Mynychu yn Unrhyw Le yn defnyddio swm tebyg o ddata i Skype® neu FaceTime®.

### Beth yw cost galwad fideo?

Mae'r alwad fideo am ddim
(heblaw am eich defnydd o'r rhyngrwyd).

**Defnyddwyr ffonau clyfar a thabledi**
Os gallwch, cysylltwch â rhwydwaith Wi-fi cartref neu waith i osgoi defnyddio eich lwfans data symudol.

ABUHB/PIU/1486-1
Issue Date – 27th August 2020
Expiry Date – 27th August 2023

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English.

# Paratoi i wneud galwadau fideo

## Sicrhewch eich bod yn defnyddio un o'r porwyr gwe canlynol




**Google Chrome**
Windows 7+, Android 5.1+, MacOS 10.11+

**Apple Safari**
MacOS 10.12+, iOS 11.4+, iPadOS 13+


**1**

Ar y dudalen we hon, cliciwch ar y botwm 'Start video call' a dilynwch y cyfarwyddiadau





**2**

Arhoswch yn eich ystafell fideo breifat eich hun



**3**

Bydd eich darparwr gofal iechyd yn eich gweld yn cyrraedd ciw’r ardal aros ...





**4**

... ac yn ymuno â chi yn eich ystafell fideo pan fydd yn barod


**Gweler y dudalen nesaf am fwy o wybodaeth ar sut i ddatrys problemau**

## Cysylltiad gwael??

Sylwer bod posibilrwydd y gallai eich cysylltiad fod yn wael ac y gallai eich galwad gyda'ch clinigydd gael ei datgysylltu. Efallai y bydd angen i chi adnewyddu eich sgrin drwy dapio ar eich sgrin a phwyso'r botwm "Refresh/Adnewyddu" gwyrdd.




O wneud hyn, mae'n bosibl y cewch neges yn dweud bod y parti arall wedi gadael yr alwad. Anwybyddwch y neges dros dro hon, byddwch yn cael eich ailgysylltu â'ch gilydd o fewn ychydig eiliadau.




## Ydw i'n barod i wneud galwadau fideo i'r Clinig Llygaid?

Cliciwch ar y ddolen sydd wedi ei hatodi os ydych chi ar-lein neu gopïwch y ddolen hon i'ch bar cyfeiriad ar eich dyfais, i wneud prawf cyflym: https://nhswales.vc/abb-opthtestrun

Rydym yn argymell eich bod yn gwneud hyn mewn da bryd cyn eich apwyntiad er mwyn datrys unrhyw broblemau posibl cyn yr ymgynghoriad. Os bydd eich galwad yn llwyddiannus, byddwch yn gweld eich hun drwy eich camera fideo ar sgrin eich dyfais a byddwch yn clywed neges yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cydnabod derbyn eich galwad. Ar ôl i chi eich gweld eich hun a chlywed y neges gydnabod, gallwch ddod â'ch galwad brawf i ben drwy wasgu'r botwm (coch) Gorffen/End.

Os nad oedd eich galwad fideo brawf yn llwyddiannus, e.e. nad oeddech yn gallu gweld eich hun ar y sgrin na chlywed y gydnabyddiaeth glywadwy, edrychwch ar y canllaw datrys problemau drwy ddefnyddio'r ddolen isod.

## Beth ddylwn ei wneud os bydd rhywbeth ddim yn gweithio?

nhs.attendanywhere.com/troubleshooting

Os ydych wedi rhoi cynnig ar yr holl awgrymiadau ar gyfer datrys eich problem a bod eich galwad am brawf yn dal yn aflwyddiannus, ffoniwch ein swyddfa archebu ar 01495 765186, i roi gwybod iddynt na fyddwch yn addas ar gyfer galwad fideo.

Statws Gwasanaeth ar hyn o bryd:

status.nhs.attendanywhere.com

*Pwerwyd gan:* attendanywhere®

GIG CYMRU NHS WALES

ABUHB/PIU/1486-1
Issue Date – 27th August 2020
Expiry Date – 27th August 2023